OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 2377

## Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Rhif 2) (Cymru) 2011

### RHAN 3

Cofrestru a chymeradwyo

**Hysbysiad mewn cysylltiad â phenderfyniadau ar gymeradwyo**

**14.** Rhaid i'r awdurdod cymwys roi hysbysiad ysgrifenedig i'r canlynol—

(a) y ceisydd am gymeradwyaeth, am y canlynol—

(i) rhoi cymeradwyaeth yn unol ag Erthyglau 24 (cymeradwyo) a 44 (y weithdrefn ar gyfer cymeradwyo) o Reoliad Rheolaeth yr UE;

(ii) rhoi cymeradwyaeth amodol yn unol ag Erthyglau 24 a 44 o Reoliad Rheolaeth yr UE, neu ymestyn y gymeradwyaeth honno yn unol â'r Erthygl honno; neu

(iii) gwrthod rhoi cymeradwyaeth mewn cysylltiad â chais cychwynnol neu estyniad;

(b) pan fo cymeradwyaeth amodol wedi cael ei rhoi yn unol ag Erthyglau 24 a 44 o Reoliad Rheolaeth yr UE, gweithredwr y safle neu'r sefydliad yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth o'r fath, am y canlynol—

(i) rhoi cymeradwyaeth lawn;

(ii) ymestyn cymeradwyaeth o'r fath;

(iii) gosod amodau yn unol ag Erthygl 46(1)(c) (ataliadau dros dro, tynnu'n ôl a gwaharddiadau ar weithredwyr) o Reoliad Rheolaeth yr UE;

(iv) atal dros dro gymeradwyaeth o'r fath yn unol ag Erthygl 46(1)(a) o Reoliad Rheolaeth yr UE;

(v) tynnu'n ôl gymeradwyaeth o'r fath yn unol ag Erthygl 46(1)(b) o Reoliad Rheolaeth yr UE;

(vi) gwneud gwaharddiad yn unol ag Erthygl 46(2) o Reoliad Rheolaeth yr UE; neu

(vii) gwrthod ymestyn cymeradwyaeth lawn neu wrthod rhoi cymeradwyaeth lawn;

(c) gweithredwr safle neu sefydliad wedi ei gymeradwyo, am y canlynol—

(i) gosod amodau yn unol ag Erthygl 46(1)(c) o Reoliad Rheolaeth yr UE (atal dros dro, tynnu'n ôl);

(ii) atal dros dro gymeradwyaeth o'r fath yn unol ag Erthygl 46(1)(a) o Reoliad Rheolaeth yr UE;

(iii) gwneud gwaharddiad yn unol ag Erthygl 46(2) o Reoliad Rheolaeth yr UE; neu

(iv) tynnu'n ôl gymeradwyaeth o'r fath yn unol ag Erthygl 46(1)(b) o Reoliad Rheolaeth yr UE.